Asiantaeth y Swyddfa Brisio

# Cais am ardrethi busnes ar gyfer llety hunanddarpar yng Nghymru

At ddefnydd y swddfa'n unig

**Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn asiantaeth weithredol i Gyllid a Thollau EF**

**Llenwch y ffurflen hon i wneud cais am ardrethi busnes ar gyfer eich llety hunanddarpar. Os ydych am wneud cais am fwy nag un eiddo, rhaid llenwi ffurflen ychwanegol am bob un.**

Atodwch y ffurflen wedi'i llenwi i e-bost. Anfonwch yr e-bost i selfcatering@voa.gov.uk gan ddefnyddio 'Cais llety hunanddarpar - Cymru' fel pwnc.

Os oes well gennych, anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau drwy'r post i:

Valuation Office Agency
Wycliffe House
Green Lane
Durham
DH1 3UW

O 1 Ebrill 2023, rhaid i'r holl amodau canlynol fod yn wir er mwyn i'ch eiddo fod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes:

- roedd ar gael i'w osod yn fasnachol (gyda'r bwriad o wneud elw) am 252 noson yn ystod y 12 mis blaenorol
- roedd wedi cael ei osod yn fasnachol am 182 noson yn ystod y 12 mis blaenorol
- bydd ar gael i'w osod yn fasnachol am o leiaf 252 noson yn ystod y 12 mis nesaf

Gall hyn ond cynnwys gosodiadau tymor byr (28 noson neu lai).

## RHAN A - eich manylion

**Cwblhewch y ffurflen mewn inc du os gwelwch yn dda**

**1** a) Cyfeiriad y llety hunanddarpar (fel mae'n ymddangos ar eich bil Treth Gyngor).

b) Rhowch unrhyw enw arall sy'n cael ei ddefnyddio i hysbysebu'r eiddo (er enghraifft, Bwthyn Rhosyn).

c) Ym mha fand Treth Gyngor y mae'r eiddo ar hyn o bryd?

**2** Enwau llawn y perchnogion.

**3** Cyfeiriad cartref y perchennog.

**4** Rhif ffôn y perchennog.

**5** Cyfeiriad e-bost y perchennog.

## RHAN B - hanes yr eiddo

**Cwblhewch y ffurflen mewn inc du os gwelwch yn dda**

**6** a) A yw'r eiddo wedi bod o fewn ardrethi busnes o'r blaen?

**Do** ☐ **Naddo** ☐

Os yw'r dyddiad yng nghwestiwn 6b cyn 1 Ebrill 2022, efallai y byddwn yn cysylltu â chi am fwy o wybodaeth.

b) Ar ba ddyddiad daeth yr eiddo ar gael yn fasnachol ar gyfer ei osod fel llety hunanddarpar?

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

## RHAN C - manylion gosod ac argaeledd

**Cwblhewch y ffurflen mewn inc du os gwelwch yn dda**

Yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth yn yr adran hon i wirio os yw eich eiddo yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes.

**7** a) O'r 1 Ebrill 2022, ar ba ddyddiad roedd yr eiddo ar gael i'w osod am 252 noson o fewn cyfnod o 12 mis? Rhaid i'r dyddiad hwn fod o leiaf 252 noson ar ôl y dyddiad roddwyd yng nghwestiwn 6b.

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

b) O 1 Ebrill 2022, ar ba ddyddiad roedd yr eiddo wedi ei osod yn wirioneddol am 182 noson o fewn cyfnod o 12 mis? Rhaid i'r dyddiad hwn fod o leiaf 182 noson wedi'r dyddiad a roddwyd yng nghwestiwn 6b.

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

c) Rhowch nifer y nosweithiau roedd yr eiddo ar gael a nifer y nosweithiau roedd yr eiddo wedi ei osod yn y blynyddoedd canlynol.

| | **Nosweithiau ar gael** | **Nosweithiau wedi ei osod** |
|---|---|---|
| 1 Ebrill 22 i 31 Mawrth 23 | | |
| 1 Ebrill 23 i 31 Mawrth 24 | | |
| 1 Ebrill 24 i 31 Mawrth 25 | | |

d) A fydd yr eiddo ar gael i'w osod yn fasnachol am 252 noson neu fwy yn y 12 mis nesaf?

**Bydd** ☐ **Na Fydd** ☐

## RHAN D - manylion yr eiddo

**Cwblhewch y ffurflen mewn inc du os gwelwch yn dda**

Os yw eich eiddo yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes, yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth yn yr adran hon i gyfrifo gwerth ardrethol eich eiddo.

**8** a) Rhowch fanylion yr holl ffyrdd yr ydych yn hysbysebu'r eiddo.

b) Rhowch y cyfeiriadau gwe llawn ar gyfer pob man y mae eich eiddo yn cael ei hysbysebu ar-lein. Dylai'r rhain fod y dolenni llawn y gellir eu defnyddio i weld eich rhestriadau eiddo ar-lein.

c) Rhowch y tâl wythnosol uchaf ac isaf ar gyfer yr eiddo, ac eithrio TAW.

| **Tâl wythnosol uchaf** | **Tâl wythnosol isaf** |
|---|---|
| £ | £ |

d) Faint o leoedd gwely sydd yn yr eiddo? Peidiwch â chynnwys mannau gwelyau dros dro fel gwelyau soffa neu welyau tynnu allan. Mae pob gwely sengl a gwely bync safonol yn cyfrif fel 1 lle gwely. Mae gwelyau bync sy'n ddwbl ar y gwaelod yn cyfrif fel 2. Mae gwelyau sy'n ddwbl neu'n fwy yn cyfrif fel 2.

**9** Rhowch gyfeiriadau llawn unrhyw eiddo arall yr ydych yn eu gosod i bwrpas llety hunanddarpar sydd yn yr un lleoliad neu sy'n agos iawn. Bydd angen i chi gwblhau copïau ychwanegol o'r ffurflen hon ar gyfer pob eiddo yr ydych am eu symud i ardrethi busnes.

## RHAN E - datganiad

**CWBLHEWCH YM MHOB ACHOS**

**Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, mae'r wybodaeth yr wyf wedi ei roi yn y ffurflen hon ac unrhyw atodiadau yn gywir a chyflawn.**

Llofnod (gall hwn gael ei deipio)

*Enw mewn PRIFLYTHRENNAU*

Dyddiad cwblhawyd y ffurflen | Dydd | Mis | Blwyddyn |

Fi yw'r Perchennog ☐ Meddiannydd ☐ Asiant y Perchennog ☐ Asiant y Meddiannydd ☐

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Cyfeiriad e-bost

I ba gyfeiriad hoffech inni anfon gohebiaeth?

Byddwn ond yn defnyddio'r manylion hyn i'ch diweddaru am eich ymholiad neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom.

Os nad chi yw'r perchennog neu'r meddiannydd, mae'n rhaid i chi roi prawf wedi'i llofnodi bod gennych awdurdod i weithredu ar ran y perchennog neu feddiannydd. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen Apeliadau Treth Gyngor: Awdurdod i Weithredu (Cymraeg) ar GOV.UK i wneud cais am awdurdod. Gallwch hefyd ofyn am gopi o'r ffurflen hon trwy e-bostio selfcatering@voa.gov.uk, gan roi 'cais am ffurflen awdurdod i weithredu' yn y blwch pwnc.

**Anfonwch y ffurflen yn ôl at: Valuation Office Agency, Wycliffe House, Green Lane, Durham, DH1 3UW**

*Mae'r Swyddfa Brisio yn Asiantaeth Weithredol Cyllid a Thollau EF sydd yn Rheolwr Data dan Ddeddf Gwarchod Data. Daliwn wybodaeth at ddibenion trethi, a swyddogaethau penodol statudol fel y'u pennir gan Y Senedd. Gellir defnyddio'r wybodaeth sydd gennym ar gyfer unrhyw un o swyddogaethau Asiantaeth Swyddfa Brisio. Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, megis adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau lleol. Efallai y byddwn yn gwirio gwybodaeth a gawn ganddynt a hefyd gennych chi, gyda'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallwn roi gwybodaeth i adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau lleol ond dim ond os yw'r gyfraith yn caniatáu inni wneud hynny, i wirio cywirdeb gwybodaeth, i atal neu ganfod troseddau ac i amddiffyn cronfeydd cyhoeddus.*

## Gwybodaeth bellach

Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer egluro neu roi gwybodaeth pellach ynglŷn ag unrhyw un o'r cwestiynau blaenorol.

| Rhif y cwestiwn | Manylion |
|---|---|
| | **Cwblhewch y datganiad ar dudalen 3 cyn anfon y ffurflen yma i Asiantaeth y Swyddfa Brisio.** |